Cyngor Cymuned Llaneilian (327)
Cofnodion cyfarfod Medi 8 2020 a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo am 7yh.

Presennol: Elfyn Hughes, Dafydd Griffiths, John Griffiths, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, Ian Evans, Thomas Jones, Cyng. Richard Jones, Carli Evans Thau (Clerc),

Ymddiheuriadau: Hefina Williams, Arfon Morgan (wedi'r cyfarfdo)

Yn absennol: Richard Griffiths, Aled Morris Jones

1 Croeso
Cadeirwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.

2 Datgan Diddordeb
Helen Hughes – Derbyn gwaith y y fynwent
Richard Jones – Ysgol Gynradd Penysarn (Cadeirydd Llywodraethwyr YSTJ)

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf
Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod 14/7/2020. Cynnig Dafydd Griffiths, eilio Gordon Hayes.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

4.1 Dwr Cymru – ni fu diweddariad gan Aled Jones; y clerc i gysylltu. CET

4.2 Cystadleuaeth Bwgan Brain – cadarnhawyd canlyniadau'r gystadleuaeth yn swyddogol: 1af – Carys a Stephen Parry, 2il – Lowri Herbert, 3ydd – Bryn Mor, Mwyaf Doniol – Gary Davies. Diolchwyd i'r beirniaid am eu gwaith ac i bawb a gymerodd rhan am eu hymdrechion. Cytuno edrych am gystadleuaeth cymunedol arall yn fuan.

4.3 Unrhyw fater arall yn codi - dim

5 Materion Priffyrdd (Cyfarfod Alun Roberts)
Dosbarthwyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd bore Gwener Awst 21 gydag Alun Roberts, swyddog adran priffyrdd CSYM. Cymeradwywyd y cofnodion - cynnig Ian Evans, eilio Glenys Jones. Mae disgwyl adborth pellach gan Alun Roberts yn dilyn y cyfarfod safle a gynaliwyd 24/8/2020.

Nododd y clerc bod yr ysgol gynradd wedi dangos diddordeb dylunio arwyddion 20mya os yn bosib.

Nodwyd bod Alun Roberts wedi datgan bod y cynlluniau 20mya ar y gweill yn barod. Cyng Richard Jones i holi am ddiweddariad. ROJ

6 Diweddariadau

6.1 **Caeau Chwarae** – Cadarnhaodd Carol Whitaker bod pris wedi ei dderbyn am yr offer chwarae ar gyfer Maes Llwyfo, gan gynnwys eu gosod. Nodwyd byddai'r cyflenwyr yn gosod yr offer er mwyn diogelu'r yswiriant a warant yr offer Ni fu gwrthwynebiad, Carol Whitaker a Gordon Hayes i gadarnhau. Mae disgwyl ymweliad i'r safle yn fuan. Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi derbyn ebost gan gontractwyr torri gwair y caeau chwarae yn ymddiheuro am beidio a chodi'r glaswellt wrth ei dorri. GH CW

6.2 **Llithrfa –** Bydd y postyn yn cael ei symud ddiwedd y mis a bydd disgeyl nes diwedd mis Hydref i bobl ddychwelyd eu goriadau am ad-daliad. Bydd y pwyllgor yn cwrdd ym mis Tachwedd i drafod unrhyw broblemau a'r ffordd ymlaen ar gyfer y flwyddyn nesaf.

6.3 **Mynwent –** cadarnhawyd bod disgwyl yr anfoneb am y plac a wedyn bydd cysylltu a'r Eglwys i ofyn am gyfraniad tuag at y giat newydd i'r fynwent. CET

6.4 **Cyllid a Pholisi –** dim wedi cyfarfod

6.5 **Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985)** – cadarnhaodd y clerc ei bod wedi dosbarthu cofnodion (drafft) y pwyllgor er gwybodaeth gan fod nifer o weithredoedd i'w cwblhau cyn y cyfarfod nesaf. Bydd y ddogfen i'w gymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

Nododd y clerc ei bod wedi cysylltu a'r tirfeddianwyr er mwyn cael gosod meinciau ger y traeth, ac wedi cwrdd a swyddogion CSYM yn dilyn gwneud cais am osod meinciau a photiau blodau ynghyd a choeden. Nid oedd y swyddogion yn rhagweld unrhyw broblemau ac mae disgwyl i'r gwaith papur gael ei gwblhau cyn symud ymlaen ac archebu'r dodrefn. CET

Bu'r clerc gadarnhau ei bod wedi bod mewn cysylltiad a Menter Mon ynglyn a chymorth i ddatblygu'r safleoedd bws dan sylw. Cytuno byddai'r Cyngor yn cofrestru a Renew Wales er mwyn cael cymorth i ddatblygu a chostio prosiect o'r fath a chael cymorth ceisio am grantiau perthnasol. CET

Gofynnwyd am fanylion cyswllt y tirfeddianwr sydd berchen ar y cae o amgylch y cofgolofn, nododd Richard Jones y byddai yn anfon manylion cyswllt y swyddog cadwraeth ymlaen cyn cyn gynted a phosib er mwyn i drafodaethau am drin y cofgolofn symud ymlaen. ROJ CW GH

6.6 **Llwybrau** – cadarnhawyd bod cofnodion y pwyllgor (drafft) wedi eu hafnon allan er gwybodaeth i'r aelodau. Bydd y ddogfen i'w gymeradwyo yn cyfarfod nesaf y pwyllgor. Cytuno byddai'r pwyllgor yn cwrdd Medi 21 er mwyn trafod diweddariadau, y rhestr torri a llwybr Cadi Rondol. CET

6.7 **Pwyllgorau Allannol –**

6.7.1 Llywodraethwyr Ysgol Gynradd – cafwyd ddiweddariad gan Glenys Jones. Nododd bod Mr David Hughes bellach wedi ymddeol a bod Mr Aaron Bayley, prifathro YSTJ wedi cytuno cymryd cyfrifoldeb nes Pasg er mwyn rhoi cyfle i'r llywodraethwyr hysbysebu a phenodi pennaeth parhaol.

Nodwyd pryder bod CSYM wedi rhoi pwysau i dderbyn y cynig yma a'i fod yn ffordd o ymuno'r ysgolion uwchradd a chynradd. Cafwyd gadarnhad had Richard Jones nad dyma'r gwir a bos YSTJ wedi ymateb i gais Ysgol Penysarn am gymorth. Cadarnhaodd Glenys Jones hefyd nad oedd opsiwn arall nac amser i benodi pennaeth newydd cyn dechrau'r tymor. Roedd yn ddiolchgar iawn i Mr Bayley a llywodraethwyr YSTJ am gynnig eu gwasanaeth.

Nododd y clerc bod Mr Bayley wedi gofyn i gael cyfarfod a'r Cyngor Cymuned ac y byddai yn ymuno a chyfarfod mis nesaf i gyflwyno ei hun a'i gynlluniau ar gyfer yr ysgol. CET

6.7.2 Virginia Crosbie – deallwyd bod cyfarfod anffurfiol wedi ei gynnal gyda Ms Crosbie yn ymwneud a chau traeth Llaneilian i gychod. Hoffai'r aelodau gael gwybod beth oedd wedi ei drafod a pham nad oedd y Cyngor Cymuned wedi bod yn rhan o'r drafodaeth. Roedd yr aelodau yn siomedig gan mai'r Cyngor sydd yn gyfrifol am y llithrfa, ac heb eu gwahodd i'r cyfarfod.

Cadarnhaodd Richard Jones ei fod wedi bod yn y cyfarfod pan fu ymweliad a'r rhandiroedd, a bod ymweliad i'r traeth wedi ei gynnwys ar yr agenda y diwrnod hwnw. Nodwyd mai gyda Aled Jones oedd Virginia Crosbie yn ymweld a'r ardal. Nododd nad oedd o na Richard Griffiths wedi eu gwahodd i'r cyfarfod/ ymweliadau, er bod tri cynghorydd sirol ar gyfer ardal Twrcelyn. Cytuno y dylai gwahoddiad wedi bod i Gyngor Llaneilian i'r cyfarfod os oedd trafodaeth am ardal a chyfrifoldebau'r Cyngor Cymuned.

Cytuno ysgrifennu at Aled Jones am fwy o wybodaeth am y drafodaeth ac i ddatgan siom yr aelodau. Byddai anfon copi hefyd at Virginia Crosbie. CET

7 **Cynllunio**

Nododd Richard Jones ei fod bellach wedi cael cyngor cyfreithiol a'i fod yn gallu gwrando ar drafodaeth ond peidio cymryd rhan. Nid felly oes angen iddo ddatgan diddordeb.

7.1 Ceisiadau –

Daw pump cais at sylw'r aelodau ers y cyfarfod diwethaf:

- Cerrig Man, Penysarn HHP/2020/165 – dim gwrthwynebiad
- Caswallon, Llaneilian HHP/2020/178 – dim gwrthwynebiad
- Plot 3 Cerrig Man, Penysarn FPL/2020/142 – dim gwrthwynebiad CET
- Castell Maelgwyn, Penysarn DAG/2020/13 – mater cyfreithilo yw pennu os oes angen caniatad cynllunio neu peidio. Fodd bynnag roedd yr aelodau yn amheus am yr angen am trac o'r fath ac am gael mwy o wybodaeth ac yn croesawu derbyn cais llawn.
- Tyn Lon, Llaneilian HHP/2020/168 – gofynnwyd i Richard Jones alw'r cais ger bron y pwyllgor cynllunio. Mae pryderon am maint y rhandy, nad oes pwrpas teuluol, a byddai'r annedd yn annibynnol i'r ty cyfredol. Cytuno bod y Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu'r cais. Cytuno byddai Dafydd Griffiths yn cynrychioli'r cyngor yng nghyfarfod y pwyllgor cynllunio. ROJ DG

Trafodwyd cais Tyn Lon mewn peth manylder gan gyfeirio at wahanol ddogfennau a pholisiau a hefyd at geisiadau tebyg oedd wedi dod ger bron y cyngor. Mewn un engrhaifft mae'r ty gwreiddiol rwan ar werth, wedi ei rannu o'r datblygiadau yn y ceisiadau diweddaraf.

Nododd Ian Evans bod y drafodaeth a'r wybodaeth oedd wedi ei gyflwyno gan Dafydd Griffiths yn dangos bod llawer iawn mwy i gais cynllunio a chyfrifoldebau'r Cyngor Cymuned. Nododd bod angen rhesymau dilys i wrthod cais, a bod angen i'r rhesymau hynnu fod ochr yn ochr ac yn berthnasoli'r cynlluniau a pholisiau cynllunio cyfredol. Nododd byddai pobl yn fwy tebygol o wrando ar y cyngor cymuned os oedd sylwadau a rhesymeg pam fod y cyngor wedi dod i benderfyniad. Roedd Dafydd Griffiths yn cytuno gan nodi bod angen deall pam fod swyddogion cynllunio wedi mynd yn groes i'r cyngor cymuned er mwyn dysgu mwy am y broses gynllunio. Cytuno ysgrifennu at Dewi F Jones ac Richard Jones am arweiniad CSYM gan nodi pryderon am ddatblygiadau cefn gwlad. CET

7.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn:

- Bryn Mor (FPL/2020/74) Caniatad
- Fair Winds (FPL/2020/100) Caniatad
- Hen Blas (HHP/2020/135) Caniatad

7.3 Gorfodaeth –

Cafwyd ddiweddariad gan y swyddogion gorfodaeth a disgwylir penderfyiadau am y tri achos yn fuan.

8 Materion Ariannol

8.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –

£220.00 HMRC (PAYE)
£26.04 Placiau i'r meinciau Magnox
£25.00 Cyngor Tref Amlwch (arwydd cae chwarae – Covid)
£293.46 Carli Evans Thau (cyflog Gorffennaf)
£1860.00 R Williams Welding (giat y fynwent)
£35.00 Information Commissioner Office (cofrestru 2020/21)
£200.00 D Holdsworth (caeau chwarae)
£97.44 M Owen (arolygon caeau chwarae)
£25.00 Cystadleuaeth Bwgan Brain
£15.00 Cystadleuaeth Bwgan Brain
£10.00 Cystadleuaeth Bwgan Brain
£293.46 Carli Evans Thau (cyflog Awst)

8.2 Ceisiadau am Arian

Daw cais am gymorth gan Ty Gobaith. Cytuno peidio a chefnogi gan nad oedd yn fudiad oedd yn weithredol o fewn ardal Llaneilian yn benodol a'i fod yn gorff cenedlaethol.

8.3 Derbyn prisiau am waith yn y fynwent

Bu i Helen Hughes adael y cyfarfod tra bu trafod yr eitem yma.

Cadarnhaodd y clerc bod y manyldeb gwaith wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd ac ar y wefan, a'i fod wedi ei ebostio at y contractwyr hynnu sydd wedi dangos diddordeb yn y math yma o waith yn y gorffennol. Cadarnhaodd ei bod wedi cwrdd ar y safle gyda pedwar o'r chwech contractiwr a bod tri o'r rheini wedi cyflwyno pris. Trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd. Cynnig derbyn pris Richard Edwards am y gwaith, cynnig Ian Evans, eilio John Griffiths, cytuno yn unfrydol. Y clerc i gysylltu a phawb oedd wedi dangos diddordeb i ddiolch. CET

9 Iechyd a Diogelwch

Dim

10 Gohebiaeth

Cadarnhaodd y clerc bod pob dim wedi ei anfon ymlaen drwy ebost wrth eu derbyn.

11 Unrhyw Fater Arall

11.1 Cyfarfod Blynyddol – teimlai'r aelodau na fyddai posib cwrdd wyneb yn wyneb cyn y Nadolig a gyda hyn fe gynigodd y Cadeirydd bod penodi cadeirydd ac is-gadeirydd yn cael ei gynnwys ar agenda y cyfarfod nesaf ynghyd a chadarnhau aelodaeth y pwyllgorau. CET

Bu i Richard Jones adael y cyfarfod.

11.2 Hyfforddiant – nodwyd bod gan Un Llais Cymru nifer o wahanol gyrsiau sydd ar gael ar lein erbyn hyn. Anogwyd aelodau i edrych pa sesiynnau oedd ar gael, beth fyddai'n ddefnydidol a chadarnhau gyda'r clerc ym mha rai fyddai ganddynt ddiddordeb.

Nododd Ian Evans bod y llyfryn 'Canllaw'r Cynghorydd Da' yn fan cychwyn gyda peth cyngor a chanllaw. Y clerc i anfon y ddolen i'r aelodau er gwybodaeth. CET

11.3 Mynwent Bosra – gofynnwyd a fyddai posib gosod tap dwr yn y fynwent. Y clerc i gysylltu a'r Henaduriaeth. CET

12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod cyffredinol nesaf Hydref 6, 2020 am 7 o'r gloch
Bydd cyfarfod Cronfa TMI am 6 o'r gloch yr un noson.

Bu'r cyfarfod orffen am 21.00

Arwyddwyd
Elfyn Hughes
Cadeirydd